# DATGANIAD O DDIBEN YSGOL ARAN HALL

**Adran 1: Am y Darparwr**

| | |
|---|---|
| **Darparwr y Gwasanaeth:** | **SENAD Group Ltd** |
| **Cyfeiriad y Darparwr:** | 1 St Georges House, Vernon Gate, Derby. DE1 1UQ |
| **Endid cyfreithiol:** | Cwmni cyfyngedig cyhoeddus |
| **Unigolyn cyfrifol:** | Mark Ryder (Grŵp SENAD) |
| **Rheolwr y Gwasanaeth:** | Andy Pryer-Smith |
| **Enw'r Gwasanaeth:** | **YSGOL ARAN HALL** |
| **Cyfeiriad y Gwasanaeth:** | Rhydymain, Dolgellau, Gwynedd. LL40 2AR |

**Strwythur Rheolaeth Syml**

1. Mark Ryder – Unigolyn Cyfrifol – Grŵp SENAD
2. Ms Llio Eiri – Ysgol Aran Hall –Pennaeth
3. Mr Andy Pryer-Smith – Ysgol Aran Hall – Pennaeth Gofal / Rheolwr Cofrestredig
4. Ms Veda Richards – Pennaeth Llesiant
5. Rheolwyr Tai – Ysgol Aran Hall School
6. Arweinwyr Tai – Aran Hall School
7. Gweithwyr Cefnogol – Aran Hall School

**Adran 2: Disgrifiad o Leoliad y Gwasanaeth**

Mae Ysgol Aran Hall yn ysgol breswyl arbenigol ac yn gallu darparu cartref i 18 o blant rhwng 11 a 21 oed sydd yn cael ei redeg 52-wythnos y flwyddyn. Mae'r prif adeilad yn cynnwys adeiladwaith mawr carreg ac adeilad ar wahân sydd yn cwmpasu uned byw annibynnol ac ardal swyddfa annibynnol. Mae'r cartref wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Cynhelir addysg mewn ystod o adeiladau ysgol ar wahân sydd wedi eu lleoli tu ôl i'r prif dy. Mae gan y cartref safle sydd yn dair erw a hanner. O fewn y tir mae yna feysydd chwarae caled a glaswellt yn ogystal â llwybr beicio mynydd. Mae gan bob person ifanc ei ystafell wely ei hun ac fe'u hanogir i bersonoli i'w blas eu hunain.

Mae trefi Dolgellau a'r Bala, dwy ardal sydd yn denu nifer fawr o ymwelwyr o fewn ychydig filltiroedd i'r cartref. Mae yna lawer iawn o draethau hefyd sydd o fewn ugain munud yn y car o'r cartref. Gwneir defnydd llawn o'r adnoddau lleol hyn, gan gynnwys llyfrgelloedd a cholegau addysg bellach, er mwyn annog cynhwysiant a hefyd i ddarparu profiadau dysgu gwerthfawr.

**Adran 3: Am y Gwasanaeth a Ddarperir**

**a) Amrywiaeth o anghenion y gallwn eu cefnogi**

Mae Ysgol Aran Hall yn cynnig gofal ac addysg i blant a phobl ifanc gydag anhwylderau deallusol a datblygiadol eraill ac ymddygiad heriol. Mae'r cartref yn anelu i gynnig amgylchedd gofalgar sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial ac ar yr un pryd gall hyn arwain at ostyngiad yn amlder a dwyster ei ymddygiad heriol.

Rydym yn arbenigo mewn gweithio gyda phobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol.

**b) Ystod oedran pobl ifanc sydd yn defnyddio'r gwasanaeth:**

Mae'r cartref yn derbyn pobl ifanc rhwng yr oedran 11-21 oed.

**c) Rhyw y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth:**

Mae'r cartref yn derbyn bechgyn a merched, ond mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn fechgyn i gyd.

**Adran 4: Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu**

**a) Trefniadau ar gyfer derbyn, asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl**

Mae Aran Hall yn arbenigo mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dangos ymddygiad heriol. Gyda phobl ifanc sydd â hanes o ymddygiad rhywiol niweidiol, rydym yn sicrhau asesiad sydd yn gallu rheoli lefel y risg yn ddiogel.

Mae derbyn plant i'r cartref yn cael ei gynllunio yn ofalus; nid ydym yn derbyn pobl ifanc ar frys. Mae yno feini prawf sydd yn cael ei ddefnyddio cyn penderfynu os ydym yn derbyn plentyn neu berson ifanc i'r cartref:

- Mae'n rhaid i bobl ifanc sydd yn cael eu derbyn i Ysgol Aran Hall fod ag anabledd deallusol neu ddatblygiadol
- Mae'n rhaid i blant sydd yn cael eu derbyn i Ysgol Aran Hall fod yn deall Saesneg
- Ni fydd plant yn cael ei derbyn i'r ysgol os gall eu hymddygiad gael effaith sylweddol ar les hirdymor plant eraill.
- Ni fydd plant yn cael eu derbyn os oes gyda nhw ofynion iechyd meddwl dwys sydd ddim yn gallu cael eu rheoli yn effeithiol gan wasanaethau iechyd lleol.
- Ni fydd plant yn cael ei derbyn os yw eu hanghenion iechyd ddim yn gallu cael ei reoli gan wasanaethau iechyd lleol.

Nid yw plant sydd â phroblemau ymddygiad a all amharu neu beri risg sylweddol i eraill yn arfer cael eu derbyn. Er hynny mae'r cartref yn barod i ystyried derbyn plentyn neu bobl ifanc os yw asesiad yn dangos y gall ei ymddygiad gael ei drin yn effeithiol a'i reoli yn ddiogel yn ystod ei leoliad yma.

## b) Safon y Gofal a’r Gefnogaeth

Mae datblygiad plant yn y cartref yn seiliedig ar y gred bod ymddygiad heriol plentyn neu berson ifanc yn cyflawni swyddogaeth. Efallai y bydd y swyddogaeth yn galluogi'r plentyn i osgoi tasgau neu fe all godi o analluu i gyfathrebu eu hanghenion. Beth bynnag, ystyrir ymddygiadau fel ymddygiadau a ddysgwyd ac rydym yn ymdrechu i ddysgu ffyrdd mwy priodol o wasanaethu'r un swyddogaeth. Nod addysgu o'r fath yw ymestyn sgiliau cyfathrebu disgyblion fel y gallant ddynodi eu hanghenion a'u dymuniadau, lleihau unrhyw deimladau ynysu a rhwystredigaeth a hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth a gwerth personol. Dim ond trwy sefydlu perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth rhwng plentyn a gofalwr y gellir cyflawni hyn.

Rydym yn ymgymryd â ffordd sy'n edrych ar bob agwedd o ofal person ifanc yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar eu hymddygiad. Yn y Cartref y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â hyn yw nodi swyddogaeth ymddygiad y broblem a chyflwyno ymyriadau priodol i'w leihau.

Defnyddiwn fodel yn seiliedig ar nodau ymddygiadol a datblygiadol eang.

- Ataliad - Mae'r Cartref yn gweithredu system lle mae pobl ifanc yn cael eu monitro'n agos a bydd staff bob amser yn cael eu neilltuo iddynt, sef hyn rydym yn galw'r system 'band garddwrn'. Mae'r system hon yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys a'u monitro'n effeithiol trwy gydol y dydd a'r nos. Mae amgylchedd y person ifanc hefyd yn cael ei reoli naill ai ei osgoi neu reoli mynediad at ddeunyddiau, gweithgareddau neu adnoddau a all 'fod yn ysgogiad' iddynt, e.e. DVD, cylchgronau neu'r rhyngrwyd.

- Sgiliau Cymdeithasol - Cefnogi'r person ifanc i feithrin, cynnal a datblygu medrau cymdeithasol priodol, megis troi, empathi, rhannu a phrofi profiadau cadarnhaol trwy weithgareddau cymunedol wedi'u cynllunio'n ofalus.

- Strategaethau Hunan-reoli - gan alluogi ac addysgu'r person ifanc i adnabod ffiniau priodol, hyfforddiant cydymffurfiaeth, neu ddilyn amserlen weithgaredd i'w cadw'n ymwneud â thasgau priodol. Darperir cymorth ychwanegol i'n pobl ifanc trwy seicotherapi. Yn Aran Hall darperir hyn gan Ms Veda Richards sydd â chymwysterau a phrofiad priodol.

- Addysg - Addysgu'r person ifanc a'r tîm staff sy'n gweithio gyda nhw.

Mae Aran Hall wedi datblygu rhaglen ACHIEVE!, system bwyntiau a lefelau sydd yn gwobrwyo pobl ifanc am ddefnyddio ymddygiad yn briodol, megis defnyddio geiriau a chamau diogel, aros yn yr ardal gywir yn y cartref, yn ogystal â gwobrwyo am gwblhau tasgau academaidd a mynychu'r dosbarth ar amser. Drwy ddarparu strwythur, arfer a ffiniau, mae pobl ifanc yn cael eu galluogi i ddatblygu sgiliau pro-academaidd a chymdeithasol, gan ddarparu canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob unigolyn.

Mae'r Cartref wedi ymrwymo i rymuso pobl ifanc yn ein gofal ac yn defnyddio Cymorth Gweithredol a Chynllunio sy'n canolbwyntio ar y person ac yn anelu tuag at gyraedd y nôd hwn. Mae Cymorth Gweithredol yn newid arddull y gefnogaeth gan ei newid o 'ofalu am' i 'weithio gyda', mae'n hyrwyddo annibyniaeth ac yn cefnogi pobl i gymryd rhan weithredol yn eu bywydau eu hunain. Trwy gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gynllunio eu

bywydau ac yn cael eu cefnogi, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan sicrhau bod barn y person ifanc wrth wraidd unrhyw broses.

Bydd pobl ifanc, staff tîmau addysg a gofal yn mynychu ‘Cyfarfod Cymuned ’sydd yn digwydd ym mhob tŷ ar brynhawn Mercher. Bydd Rheolwyr Uwch hefyd yn mynychu’r cyfarfodydd. Mae’r pobl ifanc yn rhannol wrth gynllunio eu gofal a’u bywyd dyddiol, bydd rhestr yr agenda yn cynnwys cynllunio bwydlen, gweithgareddau, addurno’r tŷ neu brynu eitemmau i’r tŷ. Mae’r fforwm yma yn grymuso pobl ifanc ac yn gadael iddynt gael dweud eu dweud ynglyn a’u gofal ac hefyd datblygu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd strwythuredig.

Mae’r Cyfarfod Cymuned yn rhoi fforwm i bobl ifanc drafod materion yglyn â’r gofal mae’nt yn ei dderbyn yn y tŷ ac yn yr ysgol, a hyn yn agored gyda’r staff. Fe gedwir cofnodion o’r cyfarfodydd ynghyd a dogfennau ymgynghori neu ebyst a geir eu cwblhau cyn y cyfarfod.

Bydd ymgynghori yn digwydd yn rheolaidd rhwng y person ifanc a’i weithiwr allweddol. Cedwir cofnodion o hyn ar ffeil y person ifanc. Bydd hefyd ymgyngori rhwng teuluoedd/unigolion arwyddocaol yn anffurfiol dros y ffôn, drwy ymweliad a’r cartef ac yn ffurfiol drwy ymweliadau statudol ac adolygiad achos.

Mae staff yn y cartref wedi ei hyfforddi yn y cynllun ’What’s The Message?’. Mae WTM yn fodel BILD, model achrededig sy'n defnyddio technegau dad-gynyddu cefnogol i rymuso staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddatrys sefyllfaoedd cyn iddynt ddwysáu. Mae'n ymgorffori ymyriadau sy'n cael eu hasesu gan risgiau biomecanyddol, wedi'u teilwra gan banel o weithwyr proffesiynol uwch, sydd wedi'u cynllunio i fod yn lleiaf ymledol, gan achosi dim poen na phanig, hyrwyddo anadlu, a chynnal urddas a pharch.

Rhoddir ystyriaeth i'r gymysgedd o bobl ifanc sy'n rhannu llety byw ac mae pobl ifanc yn cael eu rhoi mewn grŵp cyfoedion o anghenion tebyg neu gydnaws. Mae pob un o'r unedau byw annibynnol yn cynnal cyfarfod cymunedol gyda'r bobl ifanc a'r staff unwaith yr wythnos. Mae'r cyfarfodydd hyn yn caniatáu i'r bobl ifanc nid yn unig i gyfrannu at redeg eu cartref, ond hefyd i roi adborth i staff ar agweddau o'u gofal, yn ysgrifenedig trwy e-bost ac ar lafar yn ystod y cyfarfod ei hun.

Mae'r Cartref yn darparu addysg i bob disgybl mewn grwpiau dosbarth bach. Cefnogir y disgyblion ar sail 1: 1 o leiaf yn yr ystafell ddosbarth, gan sicrhau eu bod yn parhau ar y dasg ac yn profi canlyniadau llwyddiannus.

Wrth gyrraedd 16 oed, os yw hynny'n briodol, anogir plant i fynychu un o'r colegau addysg bellach lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc brofi lleoliad addysgol y tu allan i Aran Hall, y cyfle i adeiladu cyfeillgarwch newydd a'u paratoi ar gyfer bod yn oedolion. Rydym hefyd yn gallu cael mynediad at diwtoriaid addysgol ychwanegol lle bo angen. Rydym yn darparu cyfleoedd profiad gwaith addas i'n pobl ifanc trwy gysylltiadau â busnesau yn y gymuned leol (e.e. caffis, canolfannau garddio, siopau).

Mae gan y Cartref drefniant gyda gwasanaeth eiriolaeth Tros Gynnal Plant sy'n ymweld unwaith y mis i ymgynghori â'r bobl ifanc a gofyn iddynt am adborth ar ansawdd y gofal y maent yn ei dderbyn.

Mae'r Cartref yn cydnabod bod amddiffyn a diogelu iechyd yn rhannau sylfaenol o ofal o safon uchel. Mae'r Cartref yn rheolaidd yn adolygu ac yn hyrwyddo anghenion gofal iechyd pob plentyn neu berson ifanc. Mae seiciatrydd profiadol plant a phobl ifanc yn ymweld â'r Cartref unwaith y mis i

adolygu'r bobl ifanc. Mae'r holl blant wedi'u cofrestru (gyda chytundeb teulu y plentyn â'r awdurdod lleol) gyda'r ganolfan iechyd lleol, y deintydd a'r optegydd.

Mae pob plentyn yn cael asesiad meddygol wedi iddynt gyrraedd y cartref ac yn flynyddol wedi hynny. Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo iechyd da yn cael eu gweithredu mewn lleoliadau gofal ac addysg.

**c) Anghenion Iaith a Chyfathrebu i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth**

Rydym yn gofyn bod plant a phobl ifanc yn cael eu derbyn i Aran Hall yn deall Saesneg. Mae'r Cartref yn gallu gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn Gymraeg. Er bod y gwaith papur gweinyddol o ddydd i ddydd yn Saesneg, mae gennym staff rheolwyr, gofal ac addysg sy'n Gymraeg iaith gyntaf. Felly, os bydd angen, byddem yn gallu, ac yn brofiadol i ddarparu sesiynau gweithgaredd allweddol, cyfarfodydd statudol ac addysg unigolyn ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg.

I bobl ifanc sydd ag anawsterau cyfathrebu, mae gennym therapydd iaith a lleferydd sydd â chymwysterau a phrofiad priodol i ddarparu mewnbwn a chyngor arbenigol.

Bydd parch bob amser yn cael ei roi i hunaniaeth diwylliannol, hiliol a ieithyddol y pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd Rheolwyr a staff yn gwneud yn siwr eu bod yn darparu bwyd/diet, eitemmau gwallt/croen a dillad cywir yn unol â chredoau, crefydd neu ddymuniadau y person ifanc.

Mae'r cartef yn derbyn fod iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol a gwneir pob ymdrech i sicrhau fod pobl ifanc yn bositif ynghylch eu cefndir diwylliannol. Fe annogir y pobl ifanc i addurno eu llofftydd mewn ffordd sy'n adlewyrchu eu tarddiad ethnig, diwylliant, credoau a dymuniadau.

Annogir pobl ifanc i gydnabod a dathlu gwyliau a dathliadau gwahannol.

Bydd Aran Hall yn cofleidio gwahaniaeth ac amrywiaeth ar draws pob lleoliad ac yn cynnal hyfforddiant staff ar ymarfer gwrth-anffafriaeth fel rhan o'r cynllun hyfforddiant gorfodol. Rydym yn cefnogi staff a phobl ifanc i gofleidio y gymdeithas aml-ddiwylliannol yr ydym yn rhan ohonni.

**Adran 5 Trefniadau Staffio**

**a) Nifer y staff sydd â chymwysterau a'u cymwyseddau**

| | |
|---|---|
| **Rheolwr y Gwasanaeth / Pennaeth Gofal** | Andy Pryer-Smith, BSc, MSc, PGCE<br>NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>NVQ 5 Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>ILM Level 5 Diploma mewn Rheolaeth |
| **Cyd-lynydd Gofal** | Ms Lorraine Hellawell - NVQ Lefel 4 mewn Gofal |
| **Rheolwr Cartref Raven** | Ms Sarah Hughes |
| **Rheolwr Cartref Eagle** | Ms Sian Jones – QCF 4 Arweinyddiaeth a Rheolaeth |

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Cartref *Robin*** | *Ty heb ei feddianu ar hyn o bryd* |
| **Rheolwr Cartref Buzzard** | Ms Rhian Pryer-Smith – *QCF Lefel 5 Arweinyddiaeth a Rheolaeth* |
| **Rheolwr Cartref Dove** | Mr Richard Davies |
| | |
| **Arweinyddion Ty Raven** | Ms Lynne Kenny |
| **Arweinyddion Ty Eagle** | Ms Tracey Lucas, Mr Neil Taylor, Ms Sam Hughes |
| **Arweinyddion Ty Buzzard** | Ms Beth Padan, Mr Simon Fothergill |
| **Arweinydd Ty Robin** | ty heb ei feddianu ar hyn o bryd |
| **Arweinyddion Ty Dove** | Ms Stephanie Genders, |
| | |
| **Arweinwyr Tîm yn y nos** | Mr Glen Harris, Mr Alwyn Jones, |

Er mwyn darparu gofal uniongyrchol i'r pump tŷ presennol, yn ychwanegol â'r swyddi rheoli uwch ac iau a nodir uchod, mae'r Cartref yn cyflogi hyd at 33 o Weithwyr Cymorth Preswyl a 8 o Weithwyr Cymorth Nos, y mae pob un ohonynt wedi cyflawni neu yn gweithio tuag at Gymhwyster FfCCh Lefel 3 ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Nid yw'r Cartref yn defnyddio asiantaeth ar gyfer cyflenwi staff ond mae ganddo'i fanc o staff profiadol a chymwys sydd yn addas i weithio os bydd salwch neu yn ystod gwyliau.

Mae Aran Hall wedi'i gofrestru fel ysgol arbennig breswyl ac yn darparu addysg ar y safle, ein staff addysgu parhaol yw:

| | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Llio Eiri, BA, MSc, PGCE |
| | |
| **Athrawon Dosbarth** | Ms Eve Patten, PGCE (Pennaeth Dysgu)<br>Mr Ewen Silcock, PGCE<br>Ms Sam Roberts BA, Statws Athro Cymwys<br>Mr Iwan Lloyd, PGCE |
| | |
| **Cymorthyddion Dosbarth** | Ms Eleri Hughes, Ms Jane Kochy, Ms Elain Roberts,<br>Ms Sarah Edwards |
| **Therapydd dan hyfforddiant:** | Ms Elain Roberts |

**b) Lefelau staff**

Yn ystod oriau gofal dydd (8am i 10pm) mae'r lefel staffio arfaethedig ar gymhareb o leiaf 1: 1. Mae hyn yn sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd i fodloni anghenion a gweithgareddau gofal dydd i ddydd y bobl ifanc. Mae hefyd yn darparu hyblygrwydd mewn argyfwng neu ar gyfer absenoldeb staff byr-rybudd.

Yn ystod y nos (10yh - 8yb) mae Cartref yn sicrhau bod gan bob un o'r tai aelod o staff sy'n ddeffro drwy'r nos gyda o leiaf un aelod o staff ychwanegol ar ddyletswydd sy'n gallu darparu cymorth ychwanegol lle bo angen neu os bydd argyfwng.

Caiff y lefelau staffio eu hadolygu bob dydd gan y rheolwr gwasanaeth a'r Dirprwy Bennaeth Gofal i sicrhau eu bod bob amser yn cyfarfod ag anghenion cyfredol y bobl ifanc.

### c) Staff arbenigol

Er mwyn darparu ein gwasanaeth, rydym yn cynnal cefnogaeth yr arbenigwyr canlynol:

| | |
|---|---|
| **Therapydd/ pennaeth lles** | Ms Veda Richards |
| **Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc** | Dr Peter Roots |
| **Therapydd Lleferydd ac Iaith** | Ms Bethan Mair Williams |
| **Therapydd Galwedigaethol** | Ms Bernadette Fahy |

### d) Lleoli staff

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod cymhwysedd cyffredinol y staff, fel grŵp staff a'r staff sydd ar shifftiau unigol, yn foddhaol mewn perthynas â: cyflawni Datganiad o Ddiben y cartref; y Cynlluniau Gofal, Cynlluniau Personol ac anghenion plant unigol yn y cartref; nifer a chymysgedd y plant yn y cartref; ac unrhyw anawsterau penodol sy'n cael eu profi yn y cartref. Cefnogir y rheolwr yn ei ddyletswyddau a rhedeg y Cartref gan Ddirprwy Bennaeth Gofal sydd hefyd yn dirprwyo yn ei absenoldeb.

Mae staffio yn cael ei gynllunio yn unol ag anghenion y bobl ifanc sy'n byw ym mhob un o'r tai unigol a bydd hyn yn cael ei adolygu o ddydd i ddydd. O'r staff sydd ar ddyletswydd, bydd o leiaf un fel arfer yn Rheolwr Tŷ a fydd yn gyfrifol am y staff. Os nad yw Rheolwr Tŷ ar gael efallai y bydd Arweinydd Tŷ profiadol addas yn dirprwyo yn eu habsenoldeb.

Bydd gan bob tŷ unigol Arweinydd Tŷ sy'n cymryd cyfrifoldeb am redeg yr uned tŷ pan fydd ar ddyletswydd, mae hyn yn cynnwys rheoli staff a chynllunio gweithgareddau ar gyfer y bobl ifanc.

O dan arweiniad yr Arweinydd Ty, mae gan bob Tŷ nifer penodol o Weithwyr Cymorth Preswyl (mae'r nifer gwirioneddol yn dibynnu ar anghenion a nifer y bobl ifanc sy'n byw yn y tŷ ac fe'i gosodir gan y rheolwr) ac fel arfer mae hyn wedi'i gynllunio fel 1: 1. Mae Arweinwyr Tai a Gweithwyr Cefnogi preswyl yn cael eu neilltuo i weithio mewn tai arbennig yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl ifanc yn cael eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac yn sicrhau cysondeb er mwyn cynorthwyo i ddatblygu perthynas sefydlog cadarnhaol.

Mae gan y Cartref ddau dîm o staff sydd yn ddeffro yn ystod y nos; mae gan bob tîm pump aelod llawn amser. Mae timau nos yn cynnwys Arweinydd Tîm, Dirprwy a pum aelod o staff.

Mae'r cartref yn ysgol arbennig breswyl ac mae'n darparu addysg ar y safle gyda thîm o staff addysgu. Bydd y gweithwyr cymorth preswyl hefyd yn cefnogi'r bobl ifanc yn yr ysgol yn ystod y tymor.

### e) Trefniadau ar gyfer tasgau dirprwyedig

Prifathro Aran Hall, Ms Llio Eiri sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaeth ac hi yw rheolwr llinell uniongyrchol y rheolwr gwasanaeth. Arweinir y tîm gofal gan y rheolwr gwasanaeth, Andy

Pryer-Smith sydd â chyfrifoldeb dros y lleoliad preswyl. Er mwyn sicrhau bod y Cartref yn cael ei redeg yn esmwyth mae rhai tasgau'n cael eu dirprwyo, fodd bynnag mae'r rheolwr cofrestredig yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.

Mae'r rheolwr cofrestredig yn gweithio'n llawn amser ac fe'i cefnogir gan bedwar Rheolwr Tŷ llawn amser profiadol. Mae rheolwr ar gael bob amser neu ar y safle yn ystod y dydd a rheolwr tŷ ar alwad dros nos.
Mae'r rheolwr tŷ ar ddyletswydd yn gyfrifol am redeg y Cartref yn gyffredinol yn absenoldeb y rheolwr neu'r dirprwy bennaeth gofal. Fodd bynnag, mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn darparu cefnogaeth ac arweinyddiaeth ar alwad y tu allan i oriau trwy drefniant. Mae'r rheolwr a'r dirprwy bennaeth gofal hefyd yn darparu cymorth ychwanegol allan o oriau rheolaidd ar y safle trwy weithio sifft nos neu benwythnos bob wythnos.

Mae trin meddyginiaeth ar y safle gan gynnwys archebu a chadw cofnodion wedi'i ddirprwyo i un o reolwyr y tŷ er bod y rheolwr gwasanaeth yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.
Y rheolwr gwasanaeth yw'r person dynodedig ar gyfer diogelu; yn ei absenoldeb, caiff y cyfrifoldeb hwn ei ddirprwyo i'r pennaeth neu i'r pennaeth lles.

**f) Trefniadau goruchwylio**

Mae'r holl staff gofal a gyflogir yn Aran Hall yn derbyn goruchwyliaeth misol. Fel rheol bydd rheolwr llinell uniongyrchol aelod staff yn goruchwylio. Mae gan staff sydd newydd eu penodi yn eu cyfnod prawf oruchwyliaeth bob pythefnos.

Mae gan yr holl staff arfarniadau blynyddol ysgrifenedig a gwblhawyd gan eu rheolwr llinell.

**g) Hyfforddiant staff**

Mae Aran Hall yn cydnabod rôl hanfodol hyfforddiant perthnasol, o ansawdd uchel wrth sicrhau bod ei staff wedi eu hyfforddi i safon uchel i ymgymryd â'u dyletswyddau yn fedrus ac yn hyderus. Mae'r Cartref yn cyflogi Swyddog Hyfforddi sy'n cefnogi'r rheolwr a'r dirprwy bennaeth gofal i sicrhau bod hyfforddiant staff yn cael ei gynllunio'n briodol.

Er mwyn sicrhau bod gan ein staff y cymhwyster angenrheidiol maent yn cael eu cefnogi i gyrraedd y FfCCh (Plant a Phobl Ifanc) perthnasol o fewn tair blynedd i gymryd eu swydd. Mae staff sydd newydd eu penodi yn dilyn cynllun sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cysgodi aelod o staff profiadol am eu pythefnos cyntaf. Mae staff wedi'u cofrestru ar y cymhwyster perthnasol ar ôl cwblhau eu cyfnod sefydlu cychwynnol. Mae gan y Cartref gysylltiadau agos â darparwyr hyfforddiant yn yr ardal leol ac mae'n cyflogi Swyddog Hyfforddi i gynorthwyo staff i gyflawni eu Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru.

Mae hyfforddiant gorfodol a gwblhawyd gan ein holl staff gofal yn cynnwys:

- Diogelu
- Tân
- Iechyd a Diogelwch
- Hylendid Bwyd
- Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ac Ymyriadau Corfforol Cyfyngol - RESPECT

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Awtistiaeth ac ymddygiad heriol cysylltiedig
- Atal Dyletswydd
- E-ddiogelwch
- Rheoli heintiau
- Alergenau bwyd
- Cymorth Cyntaf
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae ein rota gofal o dair wythnos yn cael ei drefnu fel bod gan bob gweithiwr cymorth preswyl ddiwrnod gwaith llawn wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant unwaith bob tair wythnos. Mae'r Swyddog hyfforddiant yn gweithio'n agos gyda'r cyd-lynydd gofal i gynllunio hyfforddiant ar gyfer y gweithwyr sydd yn gweithio ein patrymau rota cywasgedig a thimau nos

Caiff hyfforddiant gorfodol ei adolygu bob mis a'i gofnodi ar gronfa ddata.

**Adran 6 Cyfleusterau a Gwasanaethau**

**a) Nifer yr ystafelloedd sengl a'r ystafelloedd i rannu**

Mae gan bob person ifanc eu hystafell wely ei hun sydd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i'w dymuniadau unigol. Mae'r pum cartref sydd gennym yn cynnwys y nifer canlynol o ystafelloedd gwely:

- Buzzard - 4
- Dove - 3
- Eagle - 4
- Raven - 3
- Robin - 3

Nid oes unrhyw bobl ifanc yn rhannu ystafelloedd gwely.

**b) Nifer yr ystafelloedd gyda chyfleusterau en-suite**

Mae gan y pedair ystafell wely yn Buzzard gyfleusterau en-suite sy'n cynnwys toiled a sinc.

**c) Nifer y mannau bwyta**

Mae pum ardal fwyta ar gyfer y bobl ifanc sy'n cynnwys un ardal fwyta ym mhob un o'r tai unigol. Yn ychwanegol mae gan yr ystafell ymwelwyr ardal i fwyta

**d) Nifer yr ardaloedd Cymunedol**

Mae gan bob un o'r tai ei lolfa gymunedol a'i gegin ei hun sy'n darparu ardal i'r bobl ifanc yn y tŷ gymdeithasu gyda staff a chyfoedion. O fewn prif adeilad Aran Hall mae ystafell weithgaredd yn

darparu ardal ar gyfer gweithgareddau hamdden ychwanegol megis pwll, tenis bwrdd a theledu lloeren ar gyfer gwylio chwaraeon a ffilmiau.

e) **Cyfleusterau ymdrochi arbenigol** - nid oes gan y Cartref ardaloedd ymdrochi arbenigol.

f) **Offer arbenigol** - nid oes gan y Cartref offer arbenigol.

g) **Trefniadau diogelwch yn eu lle a defnyddio CCTV -** Nid yw'r Cartref yn defnyddio unrhyw offer gwyliadwriaeth.

Rydym yn ymgymryd â'n hasesiad risg mewnol fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth i sicrhau diogelwch tân ac mae hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol. Cynhelir ymarferion tân bob mis i sicrhau bod yr holl staff a phobl ifanc yn ymwybodol o weithdrefnau a sut i ymddwyn mewn argyfwng. Mae ymarferion tân hefyd yn cael eu cynnal yn ystod y nôs.

Mae gan y Cartref 'ganllaw ar ddrws wedi cloi' i sicrhau diogelwch pobl ifanc a diogelwch yr eiddo.

h) **Mynediad i'r awyr agored a'r cyfleusterau**

Mae Aran Hall wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae gan dai Buzzard ac Eagle fynediad hawdd i ardaloedd chwarae cyfagos ac maent yn addas iawn i'r bobl ifanc eu defnyddio.

Mae gan bobl ifanc Robin, Raven a Dove fynediad allanol i'r tiroedd sy'n cynnwys ardal patio galed, ardal glaswellt mawr a llwybr beicio yng nghefn yr adeiladau addysg. Mae pobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddilyn eu diddordebau.

Mae gan y Cartref chwe cherbyd i alluogi ein pobl ifanc i gael mynediad i'r gymuned leol. Mae'r Cartref yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio adnoddau cymunedol sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gyfleoedd bywyd go iawn i ymarfer eu sgiliau yn y gymuned.

**Adran 7 Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd**

Mae SENAD yn ystyried lles y bobl sy'n byw yn y Cartref neu sy'n derbyn gwasanaeth yn bwysig iawn. Er mwyn sicrhau bod eu lles yn cael ei hyrwyddo, mae'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd yn trefnu ymweliadau monitro yn aml neu math arall o adolygiad ar ran yr unigolyn cofrestredig (Mark Ryder). Yn ogystal, mae'r unigolyn cofrestredig yn cyflawni ei ddyletswydd mewn deddfwriaeth trwy ymweld â'r Cartref yn bersonol o leiaf bob chwarter ac mae'n cwblhau adroddiad ysgrifenedig

Ar ran yr Unigolyn Cyfrifol bydd yr ymweliadau hyn yn cael eu dilyn gan adroddiad, a all adolygu:

- Arolygu Llyfr Cyfathrebu Cartref (Cofnod Dyddiol) a chofnodion o gwynion;
- Asesiad o gyflwr ffisegol yr adeilad, dodrefn ac offer;
- Cofnod o unrhyw gyfweliadau neu gyfarfodydd sydd gan blentyn, person ifanc neu aelod o staff;
- Cofnod o unrhyw gyfweliadau neu gyfarfodydd â rhieni neu berthnasau pobl ifanc;

- Cofnod o unrhyw gyfweliadau neu gyfarfodydd â chynrychiolwyr awdurdodau lleoli'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaeth;
- Unrhyw faterion diogelu;
- Adolygiad o ymyriadau corfforol;
- Adolygu unrhyw faterion eraill sydd yn codi yn ystod ei ymweliad.

Yn ychwanegol at yr ymweliadau misol hyn, bydd SENAD yn cynnal asesiad gwella ansawdd o'r Cartref o bryd i'w gilydd. Y nôd yw i SENAD asesu pa mor dda mae'r tîm arweinyddiaeth a'u tîm staff yn:

- Deall man cychwyn person ifanc;
- Mesur llwyddiant a chyfradd cynnydd;
- Gwybod eu bod yn gwneud gwahaniaethau cadarnhaol i'r bobl ifanc a'u lles.

Mae uwch reolwyr yn y Cartref yn ymgymryd â monitro mewnol ffurfiol o'r gwasanaeth trwy Adolygiad Gwasanaeth Cyfnodol i gynnal a gwella safonau gofal ac addysg. Mae'r rheolwr gwasanaeth yn cwblhau adroddiad misol ysgrifenedig ar y gwasanaeth ac mae'n rhannu hyn gyda'r unigolyn cyfrifol a Rheolwr Sicrhau Ansawdd SENAD.

Mae'r Cartref yn ystyried cwynion fel cyfrwng pwysig a defnyddiol i wella ac i fonitro arferion oddi fewn. Byddwn yn ymateb i gwynion yn agored ac yn amserol, a hynny mewn agwedd bositif. Gellir defnyddio cwynion i asesu ansawdd y gwasanaeth ac yna gosod mesurau i weld gwelliant. Fe ddylir dod a cwynion i sylw'r Cartref yn y lle cyntaf, er mwyn eu datrys. Os nad ellir datrys yn fewnol, dylir cyfeirio'r gwyn i SENAD, Ffon: 01332 378840

Bydd SENAD yn dilyn gweithdrefn cwynion drwy benodi person annibynnol i ymchwilio. Os na ellir datrys y gwyn, rhan olaf y broses ydi panel gwynion.

Mae proses gwynion syml ac addas ar gael i'r bobl ifanc " –**Speak Up: Speak Out**". Bydd staff yn eirioli dros y pobl ifanc I'w helpu i wneud cwyn. Bydd y Cartref yn adolygu'r drefn cwynion yn amserol, ac yn ei rhannu gyda phobl ifanc a rhieni cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Drwy sesiynnau gweithwyr allweddol a chyfarfodydd cymuned, mae pobl ifanc yn cael eu hannog i gyfrannu a chynnig awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli y Cartref yn gweithredu polisi 'drws agored' mae hyn yn sicrhau eu bod ar gael unrhyw amser ar gyfer y bobl ifanc, staff ac ymwelwyr. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn ymweld â'r tai unigol a'r ystafelloedd dosbarth yn rheolaidd i dreulio amser gyda'r bobl ifanc a'r staff.

**Dyddiad:** Medi 2024

**Dyddiad Adolygu:** Tachwedd 2024